

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Pentrefoelas, Conwy) a
Chefnffordd yr A470 (Llanrwst,
Conwy) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2021

The A5 Trunk Road (Pentrefoelas,
Conwy) and the A470 Trunk Road
(Llanrwst, Conwy) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists
and Pedestrians) Order
2021

Gwnaed 7 Medi 2021

Made 7 September 2021

Yn dod i rym 8 Medi 2021

Coming into force 8 September 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A5 a'r A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd bod digwyddiad perthnasol, sef Cam 4 y Tour of Britain, yn cael ei gynnal ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 and A470 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited by reason of a relevant event, namely the Tour of Britain Stage 4, being held on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentrefoelas, Conwy) a Chefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Medi 2021.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Pentrefoelas, Conwy) and the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021 and this Order comes into force on 8 September 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 27), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A5 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy a chefnffordd yr A470 Llundain i Gaergybi fel a ganlyn:

- (i) y darn o gefnffordd yr A5 yn Sir Conwy sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4407 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r B5113, ym Mhentrefoelas;
- (ii) y darn o gefnffordd yr A470 yn Sir Conwy sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r B5427 (Ffordd Cae’r Melwr) hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r B5106 (y Bont Fawr) yn Llanrwst.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (i) unrhyw gerbyd gwasanaeth cyhoeddus;
- (ii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu;
- (iii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben y gwasanaeth tân neu’r gwasanaeth ambiwlans;
- (iv) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;
- (v) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan un neu ragor o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi’r digwyddiad ac am resymau diogelwch y digwyddiad.

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 00:00 o’r gloch ar 8 Medi 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r cefnffyrdd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r cefnffyrdd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd.

Cymhwys

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau

“closure period” (“*y cyfnod cau*”) means that period commencing at 00:00 hours on 8 September 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (i) any public service vehicle;
- (ii) any vehicle being used for police purposes;
- (iii) any vehicle being used for the purpose of fire or ambulance services;
- (iv) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;
- (v) any vehicle used by an authorised event official in support of and for safety reasons of the relevant event.

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A5 Maentwrog to East of Conwy trunk road and the A470 London to Holyhead trunk road as follows:

- (i) the length of the A5 trunk road in the County of Conwy that extends from the centre-point of its junction with the B4407 to the centre-point of its junction with the B5113, at Pentrefoelas;
- (ii) the length of the A470 trunk road in the County of Conwy that extends from the centre-point of its junction with the B5427 (Nebo Road) to the centre-point of its junction with the B5106 (Pont Fawr) at Llanrwst.

Prohibitions

3. No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle on the lengths of the trunk roads.

4. No person may, during the closure period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads.

5. No pedestrian may, during the closure period, proceed on the lengths of the trunk roads.

Application

6. The prohibitions in article 3, 4 and 5 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaff.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Medi 2021

Andy Falley
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 1 day.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 7 September 2021

Andy Falley
Deputy Director, Infrastructure Delivery
Welsh Government